

SL(6)053 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 17) 2021

Cefndir a Diben

Mae'r [Rheoliadau](#) hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 ("y prif Reoliadau").

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r prif Reoliadau (trwy fewnosod rheoliad newydd 16A) er mwyn ei gwneud yn ofynnol i safleoedd penodol gymryd mesurau rhesymol i sicrhau nad yw personau 18 oed neu'n hŷn ar y safle onid ydynt yn meddu ar dystiolaeth bod y person:

- wedi cwblhau cwrs o ddosau o frechlyn awdurdodedig fwy na 14 o ddiwrnodau cyn i'r person fynd i'r fangre;
- wedi cymryd rhan mewn, neu yn cymryd rhan mewn, treial clinigol o frechlyn ar gyfer brechu yn erbyn y coronafeirws a gynhaliwyd neu a gynhelir yn y Deyrnas Unedig yn unol â gofynion Rheoliadau Meddyginiaethau i'w Defnyddio gan Bobl (Treialon Clinigol) 2004;
- wedi cael canlyniad negatiff o brawf cymhwysol a gymerir gan y person ddim mwy na 48 awr cyn i'r person fynd i'r fangre; neu
- wedi cael canlyniad positif o brawf adwaith cadwynol polymerasau (PCR) a gymerir gan y person ddim mwy na 180 o ddiwrnodau a ddim llai na 10 niwrnod cyn i'r person fynd i'r fangre.

Mewn perthynas â pherson sydd wedi cwblhau cwrs o ddosau o frechlyn awdurdodedig, rhaid i'r dystiolaeth hon gael ei darparu gan neu ar ran Weinidogion Cymru, Llywodraeth y Deyrnas Unedig, Gweinidogion yr Alban neu un o adrannau Gogledd Iwerddon (yr hyn y cyfeirir ato'n gyffredin fel "pàs COVID"). Gwneir darpariaeth ar gyfer darparu tystiolaeth gyfatebol mewn perthynas â brechlynnau a roddir gan wlad berthnasol (gwledydd yr UE a'r AEE, Andorra, Monaco, San Marino, y Swistir, Unol Daleithiau America a Dinas-wladwriaeth y Fatican).

Mae'r gofyniad i ddarparu tystiolaeth yn gymwys ar gyfer:

- clybiau nos a manau eraill lle y darperir cerddoriaeth ar gyfer dawnsio os ydynt yn gweini alcohol ac ar agor ar unrhyw adeg rhwng hanner nos a 5 a.m.;
- mangreoedd lle y cynhelir digwyddiad â thros 10,000 o bobl yn bresennol os ydynt i gyd yn eistedd;
- mangreoedd lle y cynhelir digwyddiad dan do â thros 500 o bobl yn bresennol os nad ydynt i gyd yn eistedd; a



- mangreoedd lle y cynhelir digwyddiad awyr agored â thros 4,000 o bobl yn bresennol os nad ydynt i gyd yn eistedd.

Mae rhai eithriadau i'r gofynion yn seiliedig ar y math o ddigwyddiad (er enghraifft, protestio, picedu a digwyddiadau chwaraeon cyfranogiad torfol) ac eithriadau ar gyfer rhai personau (er enghraifft, y rheini sy'n gweithio yn y digwyddiad neu sy'n gwirfoddoli ynddo).

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn diwygio'r prif Reoliadau i greu trosedd newydd o feddu ar dystiolaeth ffug neu gamarweiniol o statws brechu neu profi.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn diwygio'r prif Reoliadau i ganiatáu i swyddogion gorfodaeth roi hysbysiadau gwella mangre a hysbysiadau cau mangre os nad yw'r person cyfrifol yn cydymffurfio â'i rwymedigaeth i gymryd mesurau i wirio tystiolaeth o dan reoliad newydd 16A.

Gweithdrefn

Cadarnhaol drafft.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai fod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Mae'r pedwar pwynt canlynol wedi'u nodi i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Nodwn gyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

“Er bod y prif Reoliadau, fel y'u diwygir gan y Rheoliadau hyn, yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, mae'r Llywodraeth o'r farn bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaenu clefydau heintus a/neu fod hawl i wneud yr ymyriad ar y sail ei fod yn ceisio cyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur.

Mae Erthygl 5 (yr hawl i ryddid), Erthygl 8 (yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol), Erthygl 9 (rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd), Erthygl 11 (rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu) ac Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf (diogelu eiddo) yn cael eu cyffwrdd gan y prif Reoliadau.



Mae pob un o'r rhain yn hawliau amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os oes angen gwneud hynny mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu er mwyn diogelu iechyd. Rhaid cyfiawnhau'r holl gyfyngiadau a gofynion o'r fath ar y sail mai eu bwriad yw cyflawni nod cyfreithlon, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur. Hefyd, mae angen cydbwysu unrhyw ymyrraeth â'r hawliau hyn â rhwymedigaethau cadarnhaol y Wladwriaeth o dan Erthygl 2 (yr hawl i fywyd). Mae addasu'r gofynion o dan y prif Reoliadau drwy'r Rheoliadau hyn yn ymateb cymesur i ledaeniad y coronafeirws. Mae'n cydbwysu'r angen i gynnal ymateb priodol i'r bygythiad a berir gan y coronafeirws yn erbyn hawliau unigolion a busnesau, mewn modd sy'n parhau'n gymesur â'r angen i leihau cyfradd trosglwyddo'r coronafeirws, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol."

2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

"O ystyried y bygythiad sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd cyhoeddus cyflym, nid oes ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i gynnal mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn."

3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Nodwn nad oes asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer y Rheoliadau hyn. Nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol ynglŷn ag asesiad effaith cryno:

"Nid oes asesiad effaith rheoleiddiol wedi'i lunio mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd bod angen eu rhoi ar waith ar fyrder i ddelio â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd. Fodd bynnag, paratowyd ac ystyriwyd asesiad effaith cryno fel rhan o'r broses adolygu 21 diwrnod ar gyfer y coronafeirws er mwyn llywio'r penderfyniadau a wnaed. Caiff yr asesiad effaith cryno ei gyhoeddi cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl."

4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Nodir bod y Memorandwm Esboniadol yn cyfeirio at "ystyried y dystiolaeth wyddonol" a bod "SAGE wedi cynghori ei bod yn bwysig gweithredu'n fuan er mwyn arafu epidemig cynyddol". Fodd bynnag, nid yw'r Memorandwm Esboniadol yn cynnwys unrhyw gyfeiriadau penodol at y dystiolaeth y mae Llywodraeth Cymru'n dibynnu arni wrth wneud darpariaeth o dan y Rheoliadau hyn.

Byddem yn ddiolchgar pe gallai Llywodraeth Cymru nodi:



1. y dystiolaeth sy'n dangos y bydd ei gwneud yn ofynnol i rai lleoliadau wirio tystiolaeth o frechu, haint coronafeirws blaenorol neu ganlyniad prawf negyddol diweddar yn "*arafu epidemig cynyddol*"; a
2. sut y bydd Llywodraeth Cymru yn monitro pa mor effeithiol yw ei gwneud yn ofynnol i rai lleoliadau wirio tystiolaeth o frechu, haint coronafeirws blaenorol neu ganlyniad prawf negyddol diweddar.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Pwynt Craffu ar Rinweddau 2

Er na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol â'r cyhoedd ar y Rheoliadau hyn, ymgysylltwyd â rhanddeiliaid allweddol ynghylch y cynigion ac ystyriwyd yr adborth wrth ddrafftio'r diffiniadau a'r adborth ar y canllawiau arfaethedig ar gyfer busnesau a digwyddiadau.

Pwynt Craffu ar Rinweddau 3

Gallwn gadarnhau bod asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb wedi ei gynnal a'i ystyried gan Weinidogion fel rhan o'r broses adolygu cyfyngiadau 21 o ddiwrnodau hon.

Mae'r Asesiad Effaith Cryno yn ymdrin â'r canlynol:

- Effaith ar Lesiant;
- Asesiad o'r Effaith ar yr Economi;
- Asesiad or Effaith ar Gydraddoldeb;
- Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (os yw'n gymwys ac os nad yw'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn ymdrin â hyn yn ddigonol);
- Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Dynol;
- Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg.

Pwynt Craffu ar Rinweddau 4

1. Wrth baratoi ar gyfer hydref a gaeaf a allai fod yn anodd i'r GIG a'r gwasanaethau gofal ehangach, cyngor clir iawn SAGE yw y dylem weithredu'n gynnar er mwyn arafu epidemig cynyddol. Roedd y cyngor yn cadarnhau y gall gwneud ymyriadau cynnar a'r hyn y mae'n ei alw'n "ymyriadau cost isel" nawr leihau'r angen am fesurau llymach yn nes ymlaen i reoli lledaeniad y feirws.

Mae llawer o'r dystiolaeth hyd yma yn ymwneud â 'phasbortau neu dystysgrifau imiwedd', sy'n darparu tystiolaeth bod y deiliad wedi ei frechu'n llawn, wedi cael haint COVID-19 yn flaenorol neu wedi cael canlyniad prawf negatif yn ddiweddar.



Mae SAGE wedi ystyried ardystio imiwnedd ehangach mewn nifer o bapurau blaenorol¹.

Adroddodd SAGE, os caiff ei ddefnyddio, y dylid ystyried ardystio statws iechyd mewn perthynas â COVID-19 fel un rhan yn unig o becyn o fesurau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i leihau trosglwyddiad SARS-CoV-2 mewn modd teg, gan gynnwys:

- cymryd rhan yn rhaglen Profi ac Olrhain y GIG, gan gynnwys hunanynysu â chymorth;
- brechu rhag COVID-19;
- ymddygiadau diogelu, sef cadw pellter cymdeithasol, gwisgo gorchuddion wyneb a golchi dwylo;
- manau a rennir – cyhoeddus a phreifat – sy'n galluogi ymddygiadau diogelu ac sydd â digon o awyriad.

Yn hollbwysig, nid yw cyflwyno'r pàs COVID yn dileu'r gofyniad cyfreithiol i gynnal asesiad risg penodol COVID a chymryd mesurau rhesymol eraill i leihau trosglwyddiad a lledaeniad y coronafeirws. Mae canllawiau wedi eu llunio ynghylch y mesurau lliniaru mwyaf effeithiol ac addas y gall y busnesau hyn eu rhoi ar waith, gan gynnwys cadw pellter corfforol mewn ardaloedd lle y mae llawer o bobl (systemau ciwio mewn barrau etc.), sicrhau bod ystafelloedd wedi eu hawyru'n dda a darparu gorsafoedd golchi dwylo.

Fodd bynnag, efallai na fydd modd i'r lleoliadau risg uwch hyn weithredu'r ystod lawn o fesurau rhesymol y gall lleoliadau a mangreoedd eraill eu rhoi ar waith. Felly mae'r pàs COVID yn fesur ymarferol y gellir ei roi ar waith yn hawdd a all helpu'r busnesau hyn i weithredu mewn modd mwy diogel.

Dylid ystyried y Rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol defnyddio'r pàs COVID (neu dystiolaeth berthnasol arall fod rhywun wedi ei frechu) mewn digwyddiadau a busnesau risg uwch fel un agwedd ar gyfres o fesurau y mae Llywodraeth Cymru yn eu defnyddio i liniaru lledaeniad COVID drwy'r gymuned, a'r niwed cysylltiedig a ddaw yn ei sgil hynny. Y mesurau eraill a gyhoeddwyd ar 17 Medi oedd:

- Dechrau'r ymgyrch i roi brechlynnau atgyfnerthu
- Cynnig brechlynnau i bobl ifanc rhwng 12 a 15 oed
- Atgyfnerthu pwysigrwydd gweithio gartref
- Codi ymwybyddiaeth o'r gyfraith ynghylch gwisgo gorchuddion wyneb mewn manau cyhoeddus o dan do a'i gorfodi.

¹ [NERVTAG: Immunity certification, 9 December 2020](#); [SPI-B: Health status certification in relation to COVID-19, behavioural and social considerations, 9 December 2020](#); [Academics: Ethics of certification – briefing paper, 9 December 2020](#); [SPI-B Policing and Security Subgroup: Health status certification in relation to COVID-19 legitimacy and enforcement considerations, 9 December 2020](#); [SPI-B: Behavioural considerations of health certificates in population mass testing, 26 November 2020](#); [NERVTAG: Certifying COVID-19 immunity, 19 November 2020](#)



Mae angen ystyried manteision y mesurau sy'n cael eu cyflwyno ar y cyd yn hytrach nag yn unigol. Mae'r pàs COVID yn rhan o'n cyfres o fesurau i reoli'r feirws dros yr hydref a'r gaeaf – er mwyn caniatáu i leoliadau barhau i weithredu ac i bobl barhau i weld ei gilydd.

2. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n gweithio ar gynllun a fydd yn nodi rhaglen waith ymarferol ar gyfer gwerthuso cyflwyniad y pàs COVID mewn lleoliadau risg uwch yng Nghymru. Caiff y cynllun ei lywio gan dystiolaeth bresennol o fannau eraill a bydd yn adlewyrchu'r heriau o werthuso mesurau ymyrryd cymhleth sy'n cael eu rhoi ar waith yn gyflym. Bydd y cynllun yn ystyried, er enghraifft, yr asesiad o effaith, y costau/manteision a'r materion yn ymwneud ag ymddygiad sy'n gysylltiedig â'u rhoi ar waith.

Bydd angen i'r gwerthusiad hwn hefyd ystyried effaith yr ystod o fesurau sydd wedi eu rhoi ar waith er 17 Medi. Yn yr un modd â'r holl reoliadau coronafeirws, caiff y mesurau hyn eu hadolygu'n barhaus er mwyn sicrhau eu bod yn aros yn gymesur a chânt eu dileu cyn gynted ag y bydd y sefyllfa o ran iechyd y cyhoedd yn caniatáu hynny.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn gydag ymateb y Llywodraeth yn ei gyfarfod ar 4 Hydref 2021 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

